## Yr amserlen ar gyfer ystyriaeth Cam 1 o’r Mesur arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)

Ar 27 Ebrill 2009, gosodwyd Mesur arfaethedig y Llywodraeth, ‘Mesur ynghylch Addysg (Cymru)’, gerbron y Cynulliad.

Ar 9 Rhagfyr 2008, penderfynodd y Cynulliad sefydlu pwyllgor, yn unol â Rheol Sefydlog 21.1, i’w adnabod fel Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3, i ystyried y cynigion deddfwriaethol a gyfeiriwyd ato gan y Pwyllgor Busnes.

Ar 28 Ebrill 2009, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 23.21, i gyfeirio’r Mesur at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3, i ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac i baratoi adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, mae’r Pwyllgor Busnes wedi pennu amserlen i’r pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac wedi cytuno y dylai’r pwyllgor adrodd i’r Cynulliad erbyn 7 Gorffennaf 2009.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**
**Ebrill 2009**